

DATGANIADAU NEU RYWBETH GWELL?

**YMGYNGHORIAD RHAGARWEINIOL YNGHYLCH
OPSIYNAU AR GYFER NEWID I'R FFRAMWAITH AR
GYFER ASESIAU A DATGANIADAU AAA STATUDOL**

CRYNODEB O FARN RHIENI

**Yr Is-adran Anghenion Ychwanegol a Chynhwysiant
MEDI 2007**

Cefndir

Yn dilyn argymhellion a wnaed mewn adroddiadau gan ESTYN, cynhaliodd y Comisiwn Archwilio a Cambridge Education Associates,* Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cymru adolygiad polisi yn ymwneud â'r fframwaith ar gyfer asesiadau a datganiadau statudol anghenion addysgol arbennig (AAA), (rhan 2 o adolygiad tri cham o AAA). Gwnaeth yr adroddiad ar yr adolygiad* 28 o argymhellion ar gyfer newid.

Cyfrannodd grŵp gorchwyl a sefydlwyd gan Gynulliad Cymru at yr adolygiad polisi a lluniodd saith opsiwn ar gyfer newid. Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol lleihawyd nifer yr argymhellion hyn i dri. Argymhelliad cyntaf adolygiad polisi Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yw:

“.....ymgynggori'n eang â rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill i greu consensws a meithrin hyder cyn y gwneir unrhyw newidiadau sylfaenol i'r fframwaith asesu statudol.”

Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad rhagarweiniol â rhieni ynghylch yr opsiynau posibl hyn ar gyfer newidiadau ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2007.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau cam cyntaf y broses ymgynghori ragarweiniol.

Y Broses Ymgynghori

i) MODEL

Trefnwyd digwyddiadau undydd rhanbarthol ym mhob un o bedair ardal Consortiwm yr Awdurdodau Lleol. Yng Ngogledd Cymru penderfynwyd cynnal dau ddigwyddiad, (yn y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin). Mewn ymateb i geisiadau gan swyddogion awdurdodau lleol, gwahoddwyd AALLau i drefnu eu digwyddiadau ymgynghori eu hunain mewn partneriaeth â Chynulliad Cymru. Yn y diwedd, dim ond un AALI, sef Dinas a Sir Abertawe, a dderbyniodd y cynnig hwn a chynhwyswyd y canlyniadau o'i ddigwyddiad ymgynghori yn yr adroddiad hwn.

Trefnwyd y digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol yn ddau sesiwn.

Gofynnwyd i AALLau ddewis croestoriad bach o rieni i ddod i sesiwn y bore ar gyfer pob un o'r digwyddiadau a gynhaliwyd gan y consortia. Gofynnwyd iddynt ganfod ffordd deg a chyfiawn o nodi amrywiaeth eang o safbwyntiau. Y bwriad oedd y byddai'r croestoriad yn cynnwys rhieni a gofalwyr disgyblion ag amrywiaeth eang o anableddau, gan gynnwys disgyblion prif ffrwd (â datganiad a'r rhai ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy), a'r rhai a oedd wedi'u gosod mewn lleoliadau arbenigol.

Cytunodd SNAP Cymru i gydgyssylltu sesiynau'r prynhawn, y gwahoddwyd rhieni a nodwyd o sefydliadau sector gwirfoddol perthnasol i ddod iddynt.

Trefnwyd Dinas a Sir Abertawe ar yr un sail â digwyddiadau'r consortia a gwahoddwyd croestoriad o rieni.

Gwahoddwyd AALLau a SNAP i enwebu personél i ymuno â staff Llywodraeth Cynulliad Cymru fel hwyluswyr ar gyfer y digwyddiadau ymgynghori. Trefnwyd diwrnod hyfforddi ar gyfer yr hwyluswyr i sicrhau cysondeb rhwng digwyddiadau.

Comisiynwyd byrddau stori yn amlinellu'r tri opsiwn ar gyfer newid i ddarparu cymorth gweledol i'r hwyluswyr a helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o sut y byddai'r gwahanol gynigion yn gweithio yn ymarferol.

Anfonwyd copi o ddogfen yn amlinellu'r tri opsiwn at rieni cyn y digwyddiadau.

Yn y digwyddiadau ymgynghori, trefnwyd rhieni yn grwpiau o 15-20. Rhoddwyd y cefndir a'r cyd-destun ar gyfer yr ymgynghoriad iddynt ac wedyn esboniad manwl o sut y byddai'r tri opsiwn yn gweithio. Cafwyd sylwadau a barn ar sut yr oedd y system gyfredol yn gweithio ac ar y tri opsiwn a gynigiwyd. Yn olaf, gofynnwyd i rieni nodi nodweddion pwysicaf fframwaith statudol effeithiol a phriodol. Fe'u gwahoddwyd i anfon unrhyw sylwadau pellach yn ysgrifenedig.

ii) CANLYNIAD

Amrywiai nifer y bobl a fynychodd y digwyddiadau gryn dipyn ond yn gyffredinol fe'u mynychwyd gan groestoriad da o rieni a gyfrannodd yn frwd at yr ymgynghoriad. Dilynwyd y broses ar gyfer trefnu'r digwyddiadau yn eithaf da. Cafwyd oedi mewn rhai achosion o ran consortia AALLau a sefydliadau gwirfoddol yn anfon gwahoddiadau at rieni. Fodd bynnag, rhieni o un AALI yn unig a gwynodd ynghylch y broses ar gyfer anfon gwahoddiadau. Roedd rhai rhieni yn anfodlon ar amseriadau'r digwyddiadau am eu bod wedi'i chael yn anodd mynychu sesiynau'r prynhawn oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

Gweithiodd fformat y cyfarfodydd yn dda. Roedd y byrddau stori a ddefnyddiwyd mewn gweithdai grwpiau bach yn dra effeithiol o ran cyfleu'r cysyniadau sydd ynghlwm wrth y tri opsiwn ac fel ffocws ar gyfer trafodaeth. Roedd yr adborth a gafwyd gan gyfranogwyr ynghylch y broses ymgynghori yn gadarnhaol iawn. Cofnodwyd pob sylw a barn. Coladodd SNAP Cymru y sylwadau gair am air o'r deuddeg cyfarfod a chyfarfu'r rhai a oedd yn ymwneud â hwyluso'r digwyddiadau i adolygu'r canlyniadau.

Lleisiodd llawer o rieni bryderon ynghylch newidiadau posibl ond tawelwyd eu meddyliau gan y ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori cyn bod unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud. Roedd cefnogaeth gref o blaid cynnal cyfarfodydd tebyg yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol.

Crynodeb o'r Safbwyntiau a Fynegwyd

i) OPSIWN 1 - MÂN NEWIDIADAU

HOFFTERAU

Roedd cefnogaeth gref i'r canlynol:

- o Y panel amlasiantaeth ar yr amod bod gan rieni gynrychiolaeth effeithiol arno.**

- o **Gweithiwr Proffesiynol Arweiniol (y gellir cysylltu ag ef drwy'r broses), ar yr amod bod yr unigolyn yn ddigon hyddysg mewn materion yn ymwneud ag anabledd/AAA a'i fod yn gallu bod yn annibynnol. (h.y. nid dilyn arweiniad yr AALI yn unig)**
- o **Rôl y swyddog Gwellu Ysgolion ar yr amod bod hyn yn golygu ei fod yn hyddysg mewn AAA ac y byddai'n monitro ac yn cynorthwyo ysgolion prif ffrwd.**

Roedd cefnogaeth hefyd i'r canlynol:

- o **Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU), yr ystyriwyd ei fod yn fwy ymarferol a hygyrch.**
- o **Y broses gyfan, am yr ymddangosai ei bod yn fwy ystyriol o rieni.**

CAS BETHAU A PHRYDERON

Mynegwyd cryn bryder nad oedd yr opsiwn hwn:

- o **Yn cynnwys y rhai ar “Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.” Mynegwyd pryderon penodol ynghylch dyslecsia, anawsterau lleferydd ac iaith ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.**
- o **Yn broses gyflymach na'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Ystyrir bod amserlen lai na chwe mis yn bwysig.**
- o **Yn rhoi'r un lefel o ddiogelwch cyfreithiol â'r “datganiad” cyfredol.**
- o **Yn caniatáu cyfnod byrrach na blwyddyn ar gyfer y CDU, yn enwedig os nad yw strategaethau y cytunwyd arnynt yn gweithio.**
- o **Yn orddibynnol ar ysgolion prif ffrwd i sicrhau ei fod yn gweithio. Nodwyd rhai pryderon penodol:**
 - o **Adnoddau yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.**
 - o **Argaeledd Cydgysylltydd AAA (SENCO).**
 - o **Arbenigedd a hyfforddiant SENCO a staff prif ffrwd.**
 - o **Yr angen i fonitro darpariaeth brif ffrwd ar gyfer plant ag AAA.**
- o **Ei ddefnyddio'n gyson ledled Cymru.**

Ymhlith y pryderon eraill a nodwyd oedd yr angen:

- o **I'r model fod yn gymwys i blant cyn oed ysgol.**
- o **I'r model fod yn gymwys i ysgolion annibynnol ac ysgolion Sefydledig.**
- o **I nodi anawsterau mewn ysgolion Cynradd yn fwy effeithiol/yn gynharach.**

ii) Opsiwn 2 - Ail-lunio ein dull gweithredu.

HOFFTERAU

Cafwyd cefnogaeth gref gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc ag anghenion difrifol a chymhleth. Roeddent i gyd o'r farn bod yr opsiwn hwn yn cynnig darpariaeth well o lawer oherwydd:

- o **Y dull o weithredu rhwng gwahanol asiantaethau.**
- o **Y potensial ar gyfer darparu "gofal cofleidiol", gan gynnwys gwasanaethau a ariennir gan iechyd a gofal cymdeithasol ee gofal seibiant.**
- o **Y potensial ar gyfer llunio cynllun unigol i unigolion.**
- o **Y câi gweithiwr allweddol ei ddarparu**
- o **Rôl y rheolwr AAA/Anabled.**
- o **Cyfranogiad rhieni yn y panel amlasiantaeth.**

CAS BETHAU A PHRYDERON

Gwrthwynebwyd yr opsiwn hwn yn gryf iawn gan y rhan fwyaf o rieni. Y prif reswm oedd eu bod o'r farn, o dan yr opsiwn hwn, na ddarperid yn briodol ar gyfer plant ag AAA sydd y tu hwnt i'r "band 0.5%". Pryderon penodol oedd:

- o **Ni châi darpariaeth ar gyfer llawer o'r rhai sydd â datganiadau ar hyn o bryd ei gwarantu.**
- o **Y farn gyffredinol yw nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai sydd ar y lefel "Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy" yn gweithio ac y byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn waeth.**
- o **Câi rhieni'r disgyblion hyn eu heithrio ymhellach fyth o'r broses o wneud penderfyniadau.**
- o **Ni wneid darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anhwylderau sbectrwm awtistig (ASD) a'r rhai ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol ac anabledau penodol eraill.**

- Gallai darparu cyllid i ysgolion prif ffrwd ar gyfer disgyblion ag AAA fod yn broblem.

At hynny, mynegwyd y pryderon canlynol ynghylch yr opsiwn hwn gan y rhai sydd o'i blaid ac fel arall:

- Mae'r ddibyniaeth ar ysgolion prif ffrwd i ddarparu'r opsiwn hwn yn briodol yn destun pryder gwirioneddol. Rhoddwyd yr un dadleuon ag a roddwyd ar gyfer opsiwn 1 (gweler uchod).
- Nid yw'r sector gwirfoddol yn cyfrannu at y model hwn ac ystyrir yn aml iawn ei fod yn meddu ar yr arbenigedd nad oes gan ysgolion nac AALLau.
- Mae angen meini prawf a darpariaeth gyson ledled Cymru.
- Mae amheuon a fydd Awdurdodau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfranogi yn yr opsiwn hwn a'i ariannu'n briodol.

Dylid ymestyn y datganiad ar gyfer myfyrwyr ag anghenion cymhleth hyd nes y byddant yn 25 oed.

iii) Opsiwn 3 - Y dull pasbort

HOFFTERAU

Lleisiwyd cryn bryder na fyddai gan yr opsiwn hwn yr un lefel o ddiogelwch cyfreithiol ag a roddir gan “y datganiad” ar hyn o bryd. A chymryd bod diogelwch cyfreithiol wedi'i sicrhau, roedd rhai rhieni o'r farn mai dyma oedd yr opsiwn gorau, a gwnaethant nodi'r agweddau cadarnhaol canlynol:

- Gallai fod yn ddull llawer mwy cynhwysol, am na châi disgyblion eu labelu fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Gallai fod yn gymwys i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol. Awgrymodd rhai rhieni y gallai pob dysgwr gael pasbort yn amlinellu ei anghenion dysgu.
- Byddai'n gweithio'n dda ochr yn ochr ag opsiwn 2.
- Y cylch parhaol a fyddai'n fodd i gwblhau diwygiadau a diweddariadau “yn y man cychwyn” mewn ysgolion, pan fyddai angen.
- Roedd yn sicrhau cyfranogiad pennaeth yr ysgol.
- Byddai ysgolion yn cydweithio. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o fuddiol os nad oedd y clystyrau yn rhy fawr. Ymhlith y manteision posibl a nodwyd roedd:

- Byddai Cydgysylltwyr AAA o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio.
 - Byddai'r hyfforddiant yn cael ei rannu i ehangu gwybodaeth a sgiliau.
 - Defnydd mwy effeithlon o adnoddau, y posibilrwydd o greu cronfa staff ac adnoddau dysgu a reolir ar y cyd.
 - Gwell trefniadau trosglwyddo rhwng ysgolion
 - Gellid cyflogi ystod ehangach o arbenigwyr ac unedau arbenigol.
- o Byddai'n cael gwared â'r AALI ac yn cyflymu pethau.
 - o Y posibilrwydd o fersiwn electronig yn y dyfodol.

CAS BETHAU A PHRYDERON

Mae'r canlynol yn agweddau ar yr opsiwn hwn yr oedd rhieni yn anfodlon iawn arnynt:

- Roedd bron pob rhiant o'r farn bod y broses o wneud penderfyniadau drwy banel penaethiaid ysgolion yn afrealistig. Roedd rhieni o'r farn y byddai penaethiaid yn ymladd dros fuddiannau eu hysgolion eu hunain ac yn cystadlu â phenaethiaid eraill i sicrhau'r lefel uchaf o adnoddau.
- Ystyriwyd bod gan ysgolion ormod o reolaeth ac na ellid dibynnu arnynt i wario'r adnoddau dirprwyedig ar ddisgyblion ag AAA.
- Ymddengys fod Gwasanaethau Iechyd yn cymryd llai o ran yn y model hwn.
- Byddai'r model yn arwain at fwy o amrywiadau rhwng ysgolion; hy. Gallai arwain at fwy o "loteri cod post" nag a geir ar hyn o bryd.
- Ni fyddai rhieni na'r sector gwirfoddol yn cyfranogi ar y panel.
- Ystyriwyd bod y model yn lleihau hawliau rhieni.
- Mae'n anodd iawn herio penderfyniadau ysgolion.
- Y term "pasbort".

Mynegwyd y pryderon canlynol ynghylch y model hwn a fyddai, pe rhoddid sylw iddynt, yn ei wneud yn fwy derbyniol i rieni:

- **Yr angen am/y diffyg**
 - **Diogelwch cyfreithiol.**
 - **Amserlenni gofynnol.**
 - **Trefniadau ariannu tryloyw.**
 - **Datblygiad proffesiynol lawer gwell.**
 - **Systemau trylwyr o fonitro darpariaeth ysgol. (A fyddai gan staff gwella'r ysgol ddigon o arbenigedd a dylanwad?)**
- **Mae ysgolion eisoes wedi'u gorlwytho ac yn gwrthod derbyn gwaith ychwanegol.**
- **Byddai'n cynyddu nifer y lleoliadau mewn ysgolion arbennig.**
- **Byddai disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD) ar eu colled.**
- **Beth fydd yn digwydd os bydd y clwstwr yn rhedeg allan o arian?**

iv) Y System Gyfredol.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r sylwadau a wnaed gan rieni/gofalwyr yn ymwneud yn benodol â'r tri opsiwn ar gyfer newid ond â'r system gyfredol. Roedd rhieni o un AALI yn fodlon ar y cyfan ar y trefniadau cyfredol ac mewn un arall cafwyd ymateb cymysg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ymateb beirniadol a dig a gafwyd gan rieni, a hynny yn seiliedig ar eu profiadau.

HOFFTERAU

Roedd rhai rhieni o'r farn fod y system gyfredol o asesiadau a datganiadau statudol, pe gwneid mân welliannau iddi, yn ddigon da ac na ddylid ei newid. Ym mhob achos roedd gan y rhieni ddatganiadau AAA ar gyfer eu plant. Roeddent yn hoffi:

- **Y diogelwch cyfreithiol a roddir gan y datganiad.**
- **Bod modd troi at y Tribiwnlys AAA am gymorth.**
- **Y ddarpariaeth a wneir mewn ysgolion arbennig.**

Y mân newidiadau a nodwyd gan y rhieni oedd yr angen am:

- **Amserlenni byrrach.**
- **Defnydd helaethach o arbenigwyr anabledd.**
- **Proses fwy agored ac empathetig.**

- **Monitro darpariaeth brif ffrwd yn fwy trylwyr i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu.**
- **Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddi staff prif ffrwd.**

CAS BETHAU

Mae'r anfonlonrwydd a fynegwyd ynghylch y sefyllfa gyfredol yn ymwneud nid yn unig â'r prosesau statudol o lunio a diwygio'r datganiad, ond hefyd â darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag AAA mewn ysgolion prif ffrwd. Ymdrinnir â'r rhain ar wahân.

i) Asesiadau a datganiadau statudol:

- **Nid yw darpariaeth iechyd, yn arbennig gwasanaethau therapi, yn gynhwysol ac yn aml ni chânt eu darparu.**
- **Diffyg diogelwch cyfreithiol i'r rhai ar raglen "Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy".**
- **Y ffaith na ddefnyddir arbenigwyr anabledd/argaeledd arbenigwyr anabledd a diffyg gwybodaeth am rai anableddau penodol (ee. Syndrom Aspergers).**
- **Nid yw'r broses yn agored nac yn dryloyw, yn arbennig o ran gweld adroddiadau ac asesiadau yn ystod y broses.**
- **Diffyg empathi, ymatebolrwydd a phroffesiynoldeb rhai aelodau o staff AALI. (Amrywiadau sylweddol rhwng AALLau).**
- **Diwylliant "ni a nhw".**
- **Yr amser a gymerir i ymateb i bryderon a llunio datganiad.**
- **Mae prosesau adolygu yn annigonol, mae datganiadau wedi dyddio.**
- **Amrywiadau enfawr rhwng AALLau.**

ii) Y ddarpariaeth a wneir gan ysgolion prif ffrwd

Roedd un neu ddau riant a nododd eu bod yn fodlon ar y ddarpariaeth a wneir gan eu hysgolion prif ffrwd, ond roedd y mwyafrif llethol o rieni, ym mhob un o'r cyfarfodydd, yn anfonlon iawn ar y ddarpariaeth a wneir ar gyfer eu plant.

Ymhlith yr agweddau ar y ddarpariaeth a feirniadwyd fwyaf roedd y canlynol:

- **Diffyg gwybodaeth a sgiliau ar ran athrawon prif ffrwd a chynorthwyr cymorth.**
- **Diffyg ymrwymiad ac empathi ar ran staff ysgol i ddiwallu AAA disgyblion.**
- **Dyraniadau adnoddau annigonol.**
- **Mae rhai ysgolion yn dargyfeirio arian AAA i feysydd eraill.**
- **Mae ysgolion yn wael wrth ymdrin â chwynion neu bryderon.**
- **Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig :**
 - **nid oes ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu rôl,**
 - **nid ydynt wedi'u hyfforddi yn aml,**
 - **nid ydynt bob amser yn athrawon,**
 - **weithiau maent yn benaethiaid (ystyrir nad ydynt yn gweithio).**
- **Yn aml nid ydynt yn cyflawni'r hyn a nodir gan y datganiad.**
- **Nid ydynt yn rhoi digon o flaenoriaeth i'r rhai ar raglenni “Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy” a “Gweithredu gan yr Ysgol”.**

v) Agweddau hanfodol ar y ddarpariaeth

Yn y rhan derfynol o'r digwyddiadau ymgynghori a fynychwyd gan bawb, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i wneud sylwadau cyffredinol a nodi nodweddion a fyddai'n bwysig, yn eu barn hwy, mewn unrhyw system ddilynol. Daeth nodweddion allweddol i'r amlwg, yn rhyfeddol o gyson, yn y deuddeg cyfarfod. Nodwyd bod angen:

- **Diogelwch cyfreithiol ar gyfer pawb y nodwyd bod ganddynt AAA.**
- **Un system i Gymru gyfan â meini prawf a systemau cyffredin.**
- **Darpariaeth ryngddisgyblaethol wedi'i hamlinellu a'i gwarantu lle bynnag yr oedd ei hangen.**
- **Cynllun unigol yn cwmpasu holl anghenion unigolyn.**
- **Pecynnau “gofal cofleidiol” i'r rhai ag anghenion difrifol a chymhleth.**
- **Gweithio'n agosach mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol.**

- **Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol anabledd-benodol ar gael ac yn cael eu defnyddio at ddibenion asesu, a chynghor a hyfforddiant parhaus.**
- **System gweithwyr allweddol effeithiol.**
- **Cymorth eirioli annibynnol.**
- **Terfyn oedran uchaf o 25, lle y bo angen.**
- **Rhaglen datblygiad proffesiynol gynhwysfawr ar gyfer staff prif ffrwd.**
- **Cydlynwyr AAA sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a chanddynt ddigon o amser i gyflawni eu rôl, yn llawn amser yn ddelfrydol.**
- **System fonitro drylwyr sy'n seiliedig ar wybodaeth sy'n sicrhau bod anghenion yn cael eu bodloni yn y ddarpariaeth brif ffrwd.**
- **Cyfranogiad effeithiol a chynrychiolaeth annibynnol rhieni ar baneli sy'n penderfynu ar ddarpariaeth. (Roedd nifer fawr o rieni o'r farn y dylent allu mynychu paneli eu hunain).**
- **Pob asiantaeth ac ysgol i fabwysiadu dull partneriaeth empathetig o weithio gyda rhieni.**
- **Dyrannu digon o adnoddau.**
- **Dull ar gyfer gwranddo ar farn rhieni ar sut mae'r system yn gweithio.**